
AM DDIM

Cyfnodolyn Synod Cymru Yr Eglwys Fethodistaidd

Rhifyn 213 Mehefin – Gorffennaf 2018

# Gwyliedydd





# Y Coleg Ar Y Graig

*gan Owen Morris*

Mae'n debyg bod y rhan fwyaf o ddarllenwyr y *Gwyliedydd* wedi clywed am y coleg ar y bryn a'r coleg ger y lli – ond beth am y coleg ar y graig?

Y coleg dan sylw yw Cliff College, coleg yr Eglwys Fethodistaidd yn Swydd Derby a dyna lle'r aeth criw o ddilynwyr Crist o Ddyffryn Ogwen a Dyffryn Conwy yn ddiweddar, ar gyfer diwrnod agore d y coleg.

Yno i ddysgu roeddem ni am weithgareddau'r coleg hwn sydd â'r arwyddair "Crist i Bawb – Pawb i Grist". Pwrpas penodol Cliff yw, yn gyntaf, galluogi pobl i brofi trawsnewidiad personol trwy ras Duw, ac i'r trawsnewidiad gael ei ddefnyddio yn y Deyrnas ac er budd y Deyrnas; ac yn ail, hyfforddi pobl o bob rhan o gymdeithas i fyw yn fwy effeithiol fel disgyblion, gweinidogion ac efengylwyr.

Ar ôl derbyn croeso twymgalon gan bennaeth y Coleg, y Parchedig Ashley Cooper, a mwynhau lluniaeth ysgafn yn y ffreutur, fe'n trosglwyddwyd i ddwylo medrus Mr Ian White, y Cyfarwyddwr Astudiaethau, i'n tywys o amgylch y campws sydd wedi ei leoli yn ddelfrydol mewn trigain erw o dir a gerddi prydferth yng Nglyn Gobaith (Hope Valley) Ardal y Peak.

Ar ôl cinio blasus, cafwyd cyfle i eistedd i mewn ar ddarlith, ymweld â'r llyfrgell neu fwynhau y gerddi o gwmpas y Coleg. O sefyll yn ôl am funud, mae'n hawdd gweld sut mae miloedd o bobl wedi darganfod perthynas fyw hefo'r Iesu o ganlyniad i waith a gweinidogaeth Coleg Cliff. Mae i'r sefydliad hanes cyfoethog o genhadu, efengylu ac astudiaethau diwinyddol. Bûm yn myfyrio'n ddistaw ar hyn, yn nhawelwch perllan y Coleg, cyn dychwelyd i'r ffreutur am baned, ychwaneg o gwestiynau a thalu'r diolchiadau. Yna dyma'r criw yn troi am adref gyda haleliwia yn ein heneidiau o weld y gobaith a'r gwaith da sydd yn mynd ymlaen yma yn enw ein Harglwydd Iesu.

Diolch i Mrs Delyth Davies, Swyddog Datblygu a Hyfforddi Synod Cymru, am drefnu ymweliad mor ddiddorol a bendithiol. Cawsom wybodaeth am yr holl wahanol gyrsiau sydd ar gael yn Cliff, ac yn wir y neges oedd bod yna rywbeth i bawb!





## Dymuniadau da

Pob dymuniad da i Elen Wyn Jones a Simon Worman, a briodwyd yng nghapel Bethel, Aberdyfi, ar 2 Mehefin 2018. Mae Elen yn aelod ym Methel ac yn hyfforddi i fod yn bregethwr lleol. Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth priodas gan y Parchedigion Ben Midgley a Roland Barnes a phregethwyd gan y Parchedig Eifion Roberts, Aberystwyth. Boed bendith Duw arnoch, Elen a Simon, a dymunwn i chi bob hapusrwydd.



Synod Cymru

# Gwyliedydd

**CYFNODOLYN SYNOD CYMRU YR EGLWYS FETHODISTAIDD**
Sefydlwyd 1877 – Cyfres Newydd 1987

**RHIF 214**
**AWST – MEDI 2018**

Cyhoeddir 6 rhifyn y flwyddyn – am ddim i aelodau a chyfeillion Synod Cymru. 6 rhifyn drwy'r post £5.

**BARN Y CYFRANWYR UNIGOL A FYNEGIR YN YR EITEMAU UNIGOL**

**GOLYGYDDION**
**ROBIN JONES**
LLYS ALAW,
18 STAD ERYRI
BETHEL,
CAERNARFON
GWYNEDD LL55 1BX
Ffôn 01248 670140
Ffôn symudol 07780 869907
e-bost robinbethel@tiscali.co.uk

**FFION ROWLINSON**
CRUD YR AWEL
LÔN NEWYDD COETMOR
BETHESDA,
GWYNEDD
LL57 3DT
Ffôn 01248 605365
Ffôn symudol 07554 958723
e-bost ffion.rowlinson@trysor.f9.co.uk

**DYDDIAD CAU**
1 MEDI 2018

Dylid gwneud sieciau yn daladwy i"Yr Eglwys Fethodistaidd – Talaith Cymru"

Dyluniwyd gan Elgan Griffiths
Argraffwyd gan Wasg y Lolfa

Llun y clawr gan Laurin Rinder

# O'R GADAIR AR Y GOROR

gan y Parchedig **Jennifer Hurd**

Roeddwn i'n siarad â rhywun doeth yn ddiweddar a dyma fi'n cwyno bod amser fel petai'n hedfan yn hynod o gyflym y dyddiau yma. "Beth ydy dy oed di?" gofynnodd. "53, bron," dywedais i. "Wel," meddai, "pan oeddet ti'n bump oed, cyfanswm dy fywyd di i gyd oedd pum mlynedd. Erbyn hyn, rwyt ti yn dy bumdegau, a dim ond deg y cant o dy fywyd ydy pum mlynedd. Does dim syndod dy fod ti'n gweld amser yn hedfan yn gyflymach!" Fel y dywedais i – doeth iawn!

Mae rhai o fy hoff eiriau yn y Beibl i'w cael yn Salm 31, lle mae'r Salmydd yn dweud: 'Ond yr wyf yn ymddiried ynot ti, Arglwydd, ac yn dweud, "Ti yw fy Nuw." Y mae fy amserau yn dy law di' (Salm 31: 14-15a, BCND). 'Mae fy amserau yn dy law di'. Geiriau hyfryd, ynte? Beth bynnag yw ein hoed, lle bynnag rydym ni ar hyd taith bywyd, mae ein hamserau'n cael eu dal yn ddiogel yn llaw Duw, pan fyddwn yn ymddiried ynddo. Mae'r geiriau'n gysur mawr i mi wrth i mi feddwl am sut y bûm yn gwasanaethu yn fy mhenodiad fel Cadeirydd Synod Cymru ac Arolygydd Cylchdaith Cymru ers pum mlynedd, allan o'r chwe blynedd gyntaf, erbyn hyn. Lle mae'r amser wedi mynd? Cwestiwn arall yw, beth ydw i wedi ei gyflawni yn yr amser yma? Rhan fawr o'r penodiad cyntaf oedd hybu cenhadaeth ym mywyd y Synod: bydd Duw yn fy marnu, a wyf wedi ceisio cyflawni'r nod hwn yn ddigonol ai peidio, ac rwy'n taflu fy hunan ar ei drugaredd. Tua diwedd y bedwaredd flwyddyn, roedd gen i'r teimlad fod yna waith i'w wneud o hyd, felly awgrymais wrth swyddogion y Synod y buaswn yn barod i dderbyn estyniad i'r penodiad, os oedd hyn yn addas. Wrth i mi ysgrifennu'r darn yma, mae'r Gynhadledd Fethodistaidd, prif gorff gwneud penderfyniadau'r Eglwys, ar fin cychwyn yn Nottingham, a bydd y Gynhadledd yn pleidleisio ar ddymuniad Synod Cymru i estyn penodiad y Cadeirydd tan 2024. Mae'n swnio'n amser pell, pell i ffwrdd, ond rydym ni i gyd yn gwybod sut mae amser yn hedfan! Os byddaf o gwmpas tan 2024, mae yna waith i ni i gyd i'w wneud, yn sicr, ond fe wyddom, hefyd, fod ein hamserau yn llaw Duw ac y bydd ef yn ein dal ni yn ddiogel wrth i ni geisio ei ewyllys i ni a cheisio ei Deyrnas a'i gyfiawnder ef.

A sôn am Gynhadledd yr Eglwys Fethodistaidd ym Mhrydain, cefais y fraint hefyd o fynd i Gynhadledd yr Eglwys Fethodistaidd yn Iwerddon ym mis Mehefin. Roeddem yn cyfarfod yn ninas Derry/Londonderry, sydd erbyn hyn wedi ennill y llysenw 'Legenderry'! Mae'n enw addas iawn, a byddai'n enw da ar ein brodyr a'n chwiorydd yn Eglwys Fethodistaidd Iwerddon hefyd, pobl arwrol yn eu ffydd a'u dyfalbarhad a'u hymrwymiad i'r Efengyl ac i waith Duw. Dim ond enwad bychan ydyn nhw yn Iwerddon, yn gweithio dros yr ynys gyfan, ac eto mae eu tystiolaeth dros heddwch a chymod yn fwy nag y byddai eu maint fel enwad yn ei awgrymu. Tra roeddwn i yno efo'r tri chynrychiolydd arall o Brydain, bu cyn-lywydd y Gynhadledd, y Parchedig Lawrence Graham, yn annerch cynhadledd Sinn Fein gan gyfleu neges syml ond pwerus iawn, am bwysigrwydd siarad efo'n gilydd, ac yn arbennig efo'r rhai sy'n wahanol i ni. "Eisteddwch i lawr efo'ch gilydd a chael paned efo'ch gilydd," dywedodd. Cyfeiriodd hefyd at hanes Iesu'n cyfarfod y wraig o Samaria wrth ffynnon Jacob (Ioan 4: 1-30), ac am y cymod a ddechreuodd wedi i Iesu ofyn dim ond am ddiod o ddŵr. Gweithgaredd mor syml, ac eto mae'n rhywbeth sy'n gallu newid y byd.

Wrth i ni symud ymlaen yn Synod Cymru, yr hydref a'r gaeaf hwn, i sgwrsio â Wales Synod ac ymhlith ein gilydd am y posibilrwydd o greu un Synod newydd i'r Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru, bydd proses ymgynghori yn digwydd. Mae croeso i bawb fynegi barn ar unrhyw adeg, wrth gwrs, ond yn y misoedd nesaf gwneir ymdrech arbennig i holi am syniadau, cwestiynau, pryderon ac ymatebion aelodau'r ddwy Synod. Tybed a fyddai'n bosib, yn yr un ysbryd ag anerchiad y Parchedig Lawrence Graham, i aelodau'r ddwy Synod (tu hwnt i'r Grŵp Llywio) gynnal sgyrsiau anffurfiol efo'n gilydd am y mater? Beth am gysylltu â'r capel agosaf atoch sydd yn rhan o Wales Synod, a threfnu paned a sgwrs? Ychydig o fisgedi siocled, ychydig o gacennau cri, a phwy a ŵyr...? Yn sicr, beth bynnag a ddaw, mae ein hamserau ni i gyd yn llaw Duw, sy'n ein cynnal a'n cadw ni, bob amser.

# Cnoi Cil

gan Gwyndaf Roberts

Yn y dyddiau pell hynny, wedi i'r ail Ryfel Byd ddod i ben, fe fuom am gryn amser heb oleuadau ffyrdd, yn arbennig felly yng nghefn gwlad Cymru. Profiad hyfryd ar noson glir ddi-leuad oedd cerdded adref o'r capel a gweld y Llwybr Llaethog yn ei holl ogoniant. Pe baem yn cerdded y llwybr hwnnw heddiw fe fyddai goleuadau trefi'r Rhyl, Abergele, Bae Colwyn a Llandudno wedi ein dallu rhag gweld ysblander y ffurfafen uwchben. Nid felly y byddai i'n cyndeidiau di-drydan ac nid oes syndod iddynt enwi'r sêr a'r planedau ar ôl duwiau ac arwyr mawr yr oesoedd. Yr hyn sy'n rhyfedd yw ein bod ni yn gweld, i bob pwrpas, yr hyn oedd pobl filoedd ar filoedd o flynyddoedd yn ôl ei ganfod yn ffurfafen y nos.

Mae'n debyg i'r Eifftiaid ddechrau astudio'r sêr oddeutu 4500 o flynyddoedd yn ôl ac i'r sêr-offeiriaid dyfu i fod yn urdd bwerus iawn. Yn llawer iawn nes adref yng Nghôr y Cewri roedd cerrig yn cael eu gosod i nodi codiad a machlud yr haul ddwy fil o flynyddoedd cyn geni Iesu Grist. Oddeutu'r flwyddyn 1500CC dechreuwyd astudio'r sêr yn Tsieina ond oherwydd pellter a natur encilgar pobl y wlad honno ni ddaeth gwybodaeth am eu darganfyddiadau i sylw gwledydd y Gorllewin tan yn lled ddiweddar.

Aristarchus (310-230CC) o Samos yng ngwlad Groeg oedd y cyntaf i awgrymu'r syniad mai'r haul oedd canolbwynt Cysawd yr Haul ond aeth ei syniadau ar goll. Wrth i'r Eglwys Gristnogol dyfu yn rym crefyddol ac i'w gafael dynhau ar lywodraethau Ewrop, roedd syniadau Ptolemy (100-170OC) am y ddaear yn ganolbwynt i'r greadigaeth yn llawer iawn mwy derbyniol. Syniadau Platon (427-347CC) ac Aristotlys (384-322CC) oedd y rhain mewn gwirionedd, a osododd y ddaear yn ganolbwynt a'r sêr yn bodoli mewn plisgyn o gwmpas y cyfan. Tagodd y syniadau hyn unrhyw ddatblygiad mewn astudiaeth seryddol am 1400 o flynyddoedd a bu'n rhaid disgwyl i Copernicus yn 1539 ysgrifennu ei draethawd yn profi mai'r Haul oedd yn y canol gyda'r Ddaear a'r planedau yn cylchdroi o'i gwmpas. Ychwanegodd pobl fel Kepler (1571-1630) a Galileo (1564-1642) eu syniadau am symudiadau hirgrwn y planedau ac wrth i Isaac Newton (1642-1727) brofi bodolaeth disgyrchiant yn 1684 fe fu'n rhaid i'r Eglwys newid ei syniadau am y bydysawd. Er hynny, fe fu'n rhaid disgwyl tan 1835 cyn y derbyniodd y Pab Grigor XVI, ar ran yr Eglwys, theori Copernicus yn gyfan gwbl. Efallai mai dyma'r dyddiad y dechreuodd perthynas newydd rhwng yr Eglwys a gwyddoniaeth.

Yn ystod yr ugeinfed ganrif datblygodd dwy ffordd o esbonio bodolaeth y bydysawd. Mae yna beryglon wrth geisio gor-symleiddio syniadau gwyddonwyr ond fe ellir dweud bod cosmoleg theori'r Stad Sefydlog wedi dechrau yn bennaf gyda gwaith Syr Fred Hoyle (1915-2001) yn 1948 er bod Einstein wedi ystyried y mater yn 1931. Hanfod ei syniad oedd bod y bydysawd wedi bodoli erioed. Roedd yn ymchwyddo ond yn cadw'r un dwyster wrth i fater ffurfio sêr newydd a'r hen sêr ddiflannu o'n golwg ac o afael y bydysawd. Ar bwys y syniadau hyn roedd Hoyle ac eraill yn dweud gan nad oedd yna ddechreuad nid oedd yna le i Dduw. Roedd Duw wedi marw meddai Hoyle.

Yr ail esboniad am fodolaeth y bydysawd yw theori'r Ffrwydrad Mawr y bu Stephen Hawkins (1942-2018) ac eraill yn gweithio arno. Daeth y syniad hwn yn boblogaidd yn 1965 pan glywodd gwyddonwyr yn America olion sŵn y ffrwydrad mawr. O'r mesuriadau a fu'n bosib eu cyfrif, roedd y bydysawd yn 13.82 biliwn o flynyddoedd oed. Ychwanegodd Hawkins y syniad yn 1983 nad oedd derfynau i'r greadigaeth a'i bod i bob pwrpas yn dragwyddol. Yr hyn sy'n syfrdanol bellach yw bod Hawkins wedi newid ei feddwl yn sylfaenol. Fe fydd llyfr newydd ganddo yn cael ei gyhoeddi yn hwyrach eleni yn amlinellu ei syniadau newydd. Bellach mae yna derfyn neu ffin i'r bydysawd meddai Hawkins. Yr hyn sy'n frawychus yw'r syniad nad oes dim yn bodoli y tu hwnt i'r ffin. Nid oes yno ofod nac amser na dim oll yn bod.

Efallai y bydd y syniadau hyn yn gyfle i'r rhai sydd âu'u golwg ar y gofod fel y dyfodol i ddynoliaeth newid eu meddwl. Y ddaear, sef rhodd Duw, yw ein cartref ac mae yna ddyletswydd arnom oll i newid y ffordd rydym yn cam-drin yr adnoddau ac yn difwyno ein planed. Fe ddylai'r Eglwys a gwyddonwyr ymuno yn y dasg o achub y rhodd ddwyfol. Mae'n dod yn fwyfwy amlwg nad oes cartref arall inni. Os difethwn y ddaear fe fydd hi'n ddiwedd y Byd arnom oll.








# O'r pen yma

gan **Angharad Tomos**

Yn ddiweddar, roedd y Parchedig John Gwilym Jones yn pregethu yn ein capel, Ty'n Lôn, Llanwnda, a rhoddodd wedd gwbl newydd i mi ar y Gwynfydau.

Fel y dywedodd, rydym yn arfer meddwl am Iesu yn pregethu o flaen tyrfa o gannoedd, gan mai'r adnod gyntaf yw 'Pan welodd Iesu y tyrfaoedd' ac rydym yn anwybyddu ail hanner yr adnod, sy'n dweud 'efe a esgynnodd i'r mynydd', ac yn sôn am sut oedd yr Iesu yn eistedd yn hamddenol yn siarad efo'r disgyblion. Mae hyn yn rhoi gwedd wahanol i 'Chwi yw halen y ddaear' a 'chwi yw goleuni'r byd',- dysgeidiaeth i griw bach o ddilynwyr ffyddlon ydoedd.

Dwi'n siŵr eich bod chi fel minnau yn teimlo yn fach fach yn ein capeli y dyddiau hyn (yn enwedig os mai Wesleaid ydym). Mae pawb o'r Oesau Fu wedi mynd, a does neb wedi cymryd eu lle. Rydan ni'n dal ati, ond yn teimlo embaras am ein bod yn gynulleidfa mor dila. Daw straeon o 'Merica a gwahanol rannau o'r byd fod cannoedd yn gallu bod yn bresennol mewn un oedfa, a dyma ni yng Nghymru yn tynnu pregethwr allan i annerch llond dwrn ohonom.

Codi fy nghalon wnaeth John Gwilym Jones. Deuddeg oedd nifer y disgyblion, a ddaru pob un o'r rheini ddim aros yn ffyddlon iddo. Yng Ngesthemane, tri oedd efo fo.

Dyna'r wedd gysurlon i'r neges. Does dim rhaid i bawb fod yn 'super-church', mi wnaiff llond dwrn o Gymry mewn capel Wesle y tro.

Yn aml iawn, criwiau bach sy'n cael y dylanwad mwyaf, dim ond bod y llond llaw yna yn adnabod ei gilydd, yn cydweithio, ac yn fodlon rhoi blaenoriaeth i Grist. A dyna'r rhan anodd o'r wers. Nid gofyn am bnawn bob wythnos wnaeth Crist, nid awr i fynd i oedfa bob Sul mae o'n ei olygu. Na, pan aeth ar ôl y disgyblion, 'Deuwch ar fy ôl i' yw ei eiriau. Mae'n disgwyl inni adael popeth i'w ganlyn ef. Rydan ni dipyn mwy cyndyn i wneud hynny. Mae Iesu yn dweud wrthym sawl gwaith am beidio chwenychu eiddo, nad oes angen fawr arnom, y dylem roi ein cyfoeth i'r tlodion, a'i ganlyn Ef. Mae hynny'n ddarllen hynod o anghyfforddus i ni yn y byd Gorllewinol sydd wedi dod i fwynhau'r cysuron bydol. Mae'n neges chwyldroadol, a dwi'n aml yn meddwl be fyddai'n digwydd petaem ni fel Cristnogion yn cymryd y cyngor hwn o ddifri. Falle y byddem yn dod yn halen y byd go iawn, ac yn oleuni llachar.

Diolchwn yn gynnes unwaith eto am y tanysgrifiadau a'r rhoddion caredig a dderbyniwyd tuag at gostau cyhoeddi a dosbarthu'r Gwyliedydd.

| | |
|---|---|
| Eryl Davies, Caerwys | £20-00 |
| A S Jones, Bebington | £15-00 |
| M G Thomas, Penmachno | £10-00 |
| Dienw | £40-00 |
| Siân Humphreys, Penrhyndeudraeth | £10-00 |
| M R Davies, Ffairfach | £10-00 |
| Marian Jones, Radur, er cof am ei rhieni y Parchg a Mrs D REvans ac am ei gŵr | |
| Mr R Dilwyn Jones | £30-00 |
| Dydd Gweddi Byd-eang y chwiorydd | £1,500-00 |
| Cyfanswm | £1,635-00 |

*Cynhelir Cyfarfod Hydref Merched Methodistaidd yng nghapel Ebeneser, Caernarfon, dydd Sadwrn Hydref 13 am 2:30 y prynhawn. Bwriedir trefnu bws o Lanrhaeadr.*

*Cynhelir Darlith Flynyddol y Gymdeithas Emynau ar ddydd Mercher, 8 Awst, ym Mhabell y Cymdeithasau 1 ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol, Caerdydd. Rob Nicholls fydd yn darlithio, ar John Hughes ac Arwel Hughes.*

Cofiwch wylio fideo newydd yr Eglwys Fethodistaidd am Ein Galwad

https://www.youtube.com/watch?v=zWeMRKtL6MQ&-feature=youtu.be






Bedydd Matthew a Mali Inskipp yn Salem, Rhyd y Foel

# Capel Ni
## yn Eglwys Iesu

### Pisgah, Rhiwlas

**CYDYMDEIMLO**
Cydymdeimlwn fel Eglwys â Dyfed, Caren ac Osian Rowlands. Bu farw mam Dyfed, Mairwen Rowlands, yn frawychus o sydyn ddechrau mis Ebrill. Anfonwn ein cofion at y teulu i gyd wedi eu colled drist.

**YMDDEOLIAD**
Dymunwn yn dda i Jim Evans-Hill ar ei ymddeoliad o'i waith fel darlithydd yng Ngholeg Menai. Gobeithio y cewch hir oes ac iechyd i fwynhau pob eiliad o'r ymddeoliad.

**SWYDD NEWYDD**
Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Caren Wyn Rowlands fydd yn cychwyn ar swydd newydd fel Pennaeth Mewn Gofal yn Ysgol Glanadda ac Ysgol Babanod Coed Mawr ddechrau fis Medi.

**GWELLHAD**
Dymunwn wellhad buan i Carol Jones sydd wedi torri ei garddwrn ar ôl syrthio yn yr ardd.

**GOHEBYDD .** EINIR WILLIAMS

### Bethel, Rhiwbeina

**GWASANAETHAU**
Yn ystod mis Mai a dechrau Mehefin cawsom oedfaon bendithiol dan ofal ein gweinidog, y Parchedig Evan Morgan, Mr Mansel Jones, Mr Gwyndaf Roberts, Mrs Lona Roberts a'r (diweddar) Barchedig Dafydd Henry Edwards. Rydym yn ddiolchgar i bob un o'r pregethwyr.

**OEDFA FAWL**
Prynhawn Sul Mai 13 cynhaliwyd Oedfa o Fawl ym Methel i gapeli Wesleaidd Ardal Morgannwg. Cafwyd canu da iawn dan arweiniad Gwilym Roberts gyda Hafwen Roberts wrth yr organ. Agorwyd yr oedfa gyda Rhys Mathews, oedd yn cynrychioli'r Ysgol Sul, yn cyflwyno'r emyn gyntaf. Gwyndaf Roberts oedd yn cyflwyno'r darlleniad a'r weddi. Talwyd y diolchiadau a thraddodwyd y Fendith gan y Parchedig Ddr Ian Morris, arweinydd yr Ardal. Paratowyd te prynhawn blasus gan ferched Bethel – diolch yn fawr iawn iddynt.

**CLOD**
Mae Rhys Mathews yn haeddu clod hefyd ar gael ei ddewis yn rhan o garfan criced dan 11 oed Cymru ar gyfer y tymor hwn. Llongyfarchiadau a phob llwyddiant, Rhys.

**CYDYMDEIMLO**
Rydym yn cydymdeimlo â Tamsin Llwyd Graves ar golli ei thad, y Parchedig Dewi Lloyd Lewis. Rydym yn ddiolchgar i Tamsin a'i thad am eu cyfraniad i fywyd ein capel dros y blynyddoedd. Bydd llawer yn cofio am waith arloesol Mr Lewis gyda Chymorth Cristnogol.

**BORE GOFFI**
Yn y bore goffi a gynhaliwyd ar Mai 15 llwyddwyd i godi dros £300 ar gyfer Cymorth Cristnogol.

**PRIODAS**
Ym mis Mai hefyd cafwyd digwyddiad pleserus iawn pan briodwyd Angharad Davies â Gavin Taylor. Dymunwn bob hapusrwydd iddynt yn y dyfodol.

**CINIO**
Ddiwedd mis Mehefin aeth nifer o aelodau Bethel i fwynhau cinio ganol dydd mewn bwyty lleol.

**GWASANAETHAU MIS AWST**
Ni chynhelir gwasanaethau ym Methel yn ystod mis Awst ond fe fydd cyfle i fynychu gwasanaethau yn Salem Treganna. Yna ar 2 Medi byddwn yn ymuno gyda'n gilydd ym Methel pan fydd gwasanaeth dan ofal y gweinidog, y Parchedig Evan Morgan.

**GOHEBYDD .** GWILYM E. ROBERTS

### St Paul, Aberystwyth

**CYMANFA GANU**
Yn dilyn awgrym gan aelodau Ystumtuen yn ein Cyfarfod Ardal trefnwyd Cymanfa Ganu eleni ar gyfer capeli Ardal Ceredigion ar brynhawn dydd Sul 20 Mai. Dewiswyd dau emyn o *Caneuon Ffydd* gan aelodau pob capel, sef: Capel Ficer; Carmel, Cnwch Coch; Ebeneser, Ystumtuen; Sant Paul, Aberystwyth. Dewiswyd emynau hefyd gan y Gweinidog, y Parchedig Marty Presdee, yr Arweinydd, Miss Menna Evans, a'r Organydd, Dr Lionel Madden. Cawsom amrywiaeth hyfryd o emynau. Pleser arbennig oedd canu 'Daeth Iesu i'm calon i fyw' (797 yn *Caneuon Ffydd*) er cof am y diweddar Mr Aneurin Morgan, Cwmrheidol. Dewiswyd yr emyn gan ei weddw, Mrs Gwen Morgan, a'r teulu ar wahoddiad aelodau Ystumtuen. Roedd yn braf iawn cael cwmni Mrs Morgan a'i merch Dwynwen gyda ni yn y Gymanfa. Daeth aelodau o bob capel yn yr Ardal i'r Gymanfa a gynhaliwyd yng Nghanolfan Fethodistaidd Sant Paul, Aberystwyth. Roedd yn dda gennym groesawu rhai o aelodau'r gynulleidfa Saesneg yn Sant Paul hefyd. Yn eu mysg roedd Dr David a Mrs Norma Green. Roedd yn hyfryd gweld David eto yn dilyn cyfnod hir o salwch. Cafodd pawb gyfle i gymdeithasu dros baned ar y diwedd.

Rydym yn ddiolchgar iawn i'r Parchedig Marty Presdee, i Ms Beti Wyn Holmes oedd yn gyfrifol am y gweddïau, ac i bawb a ddaeth i ganu. Ond mae ein prif ddyled i Miss Menna Evans am arwain y Gymanfa mor dda a sicrhau bod yr achlysur yn rhoi pleser a chodi calon pawb oedd yn bresennol.

**GWAELEDD**
Roedd yn ddrwg iawn gennym glywed bod Mr Trefor Lloyd Jones wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar. Dymunwn yn dda iddo ef ac Emily nawr ei fod wedi dychwelyd adref. Cofiwn hefyd am ein haelodau eraill sy'n methu dod yn gyson i'r oedfa oherwydd salwch a gwendid a rhoddwn ddiolch am y rhai sy'n gofalu amdanynt.

**GOHEBYDD .** LIONEL MADDEN

### Horeb, Croesoswallt

**CYMORTH CRISTNOGOL**
Cyfanswm y casgliad eleni oedd £260. Diolch i Nesta Lloyd am ddod yr holl ffordd o Gricieth i gasglu, a hefyd i Dafydd Barker Jones am ei ran yntau. Maent wedi casglu dros eglwys Horeb ers blynyddoedd a mawr yw ein gwerthfawrogiad o'u gwaith.

**PREGETHWYR**
Cawsom y fraint o gael gwasanaeth y cyfeillion canlynol yn ein pulpudau yn ystod y tri mis diwethaf a diolchwn yn ddiffuant iddynt: Y Parchedigion Gwilym O Jones, Siôn Aled Owen Dilys Jones a Roger Ellis Humphreys; Mr Aled Lewis Evans, Mr Dafydd Barker Jones, Mr Glyn Williams, Mrs Elizabeth Jones a Mrs Hazel Jones.

**GOHEBYDD .** EURWYN JONES

### Eglwys Unedig Colwyn

**ER COF ANNWYL**
Gyda thristwch cofnodwn farwolaeth Mrs Blodwen Jones ar Mai 17 yn 83 mlwydd oed. Blodwen oedd priod annwyl y diweddar David a mam ofalus Geraint ac Aled a'r diweddar Dewi. Bu'n aelod ffyddlon iawn yn Horeb am rai blynyddoedd nes i afiechyd ei rhwystro rhag dod i'r gwasanaethau. Cynhaliwyd yr angladd yn Horeb dan ofal y Parchedig R Ifor Jones gyda Mr Gwyn Jones wrth yr organ, a gwasanaethwyd yn Amlosgfa Bae Colwyn gan y Parchedig Keith Tewkesbury. Cydymdeimlwn yn ddwys â'r teulu.

**GWELLHAD BUAN**
Dymuniadau gorau a chofion annwyl at Rhian sydd yn wynebu llawdriniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd. Cofion hefyd at Nan a gafodd godwm yn ymyl ei chartref yn ddiweddar a John, a fu yn Ysbyty Maelor am wythnos yn derbyn triniaeth. Gwellhad buan i'r tri ohonynt.

**GOHEBYDD .** RHIANNON JONES



### Ebeneser, Eglwysbach



**COFIO'R PARCHEDIG JOHN EVANS, EGLWYSBACH (1844-1897)**
Ar fore dydd Sul 17 Mehefin, trefnodd Mr Aled Griffiths (mab y diweddar Barchedig E.H.Griffiths) bererindod i Eglwysbach gyda chyfeillion o Ynys Môn. Hefyd yn bresennol roedd rhai o aelodau Ardal Dyffryn Conwy. Cafwyd gwasanaeth dan ofal y Parchedig Arglwydd J.Roger Roberts ynghyd â darlith fer ar hanes John Evans, un o brif gedyrn pulpud Cymru. Yna yn dilyn y gwasanaeth mwynhawyd paned.

**GWELLHAD**
Gwellhad buan i Mrs Beryl Jones, Rhiw Felen, yn dilyn llawdriniaeth yn ddiweddar.

**DYMUNIADAU GORAU**
Dymuniadau gorau i Osian Hughes, Bryn Hafod, sydd yn mynd i weithio am gyfnod ar ffermydd yn Seland Newydd.

**GOHEBYDD .** CHARLES CRAPPER





### Ebeneser, Dolgellau

**CYMANFA**
Ar y 10fed o Fehefin cynhaliwyd Cymanfa Ganu Dolgellau a'r Cylch yng Nghapel Salem, Dolgellau. Yr Arweinydd oedd Mr Arfon Williams o Gwmtirmynach.

**GŴYL FLODAU**
Roedd arddangosfa brydferth o Ebeneser ymysg y blodau bendigedig yng Ngŵyl Flodau Eglwys y Santes Fair.

**CYDYMDEIMLO**
Cydymdeimlwn â'r Parchedig Angharad Griffith, ein cyn-Weinidog, ar golli ei thad. Meddyliwn amdani hi a'i theulu yn eu colled fawr.

**GWELLHAD BUAN**
Pob dymuniad da am wellhad buan i Mrs Marian Humphreys a dorrodd ei chlun ac a fu yn Ysbyty Bronglais; i Mrs Thelma Parry sy'n derbyn mwy o driniaeth yn Ysbyty Maelor; i Mrs Mary Dillon yn Ysbyty Dolgellau ac i'r Chwaer Eluned Williams a fu yn Ysbyty Bronglais am un noson.

**CARTREF NEWYDD**
Dymunwn yn dda i Mrs Margaret Baron sydd yn ymgartrefu yng Nghartref Preswyl Llys Hafren, Y Trallwng.

**GOHEBYDD .** GWYNETH MEREDITH

### Ardal Bathafarn


**DATHLU**
Llongyfarchiadau calonnog i Siôn Hughes a Gwenno o Lanberis ar achlysur hapus eu dyweddïad. Pob hapusrwydd i'r dyfodol.

**PROFEDIGAETH**
Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant â Gwyn Williams a'r teulu o golli chwaer a modryb annwyl sef Glen oedd yn byw ym Manceinion. Hefyd at Meta ac Elizabeth o golli cefnder sef Dewi Lewis, gynt o Langynhafal.

**GWAELEDD**
Anfonwn ein cofion anwylaf at Susan a Siân James, Gwyddelwern, y ddwy wedi derbyn triniaethau, ac at Ifor Parry yng nghartref Plas Gwyn, Gretta Davies yng nghartref Dolwen, Dinbych, ac Eva Rogers-Jones yn Ysbyty Rhuthun. Meddwl amdanoch i gyd.

**OEDFAON**
Hyfryd oedd cael cwmni criw o Lanrhaeadr ym Mochnant efo ni ym Mathafarn ar Sul olaf Mehefin. Roeddent ar bererindod i weld ffenestr hanesyddol Jesse yn Eglwys Llanrhaeadr ger Dinbych. Cawsant y Sacrament gyda ni o dan arweiniad y Parchedig Martin Evans-Jones. Mwynhawyd lluniaeth yn y festri, wedi ei baratoi gan gyfeillion Bathafarn.

**... parhau ar dudalen 10**



# Gair o Norwy

*gan Iorwerth Roberts*

**[Mab y diweddar Barchedig a Mrs John Alun Roberts yw Iorwerth. Braf iawn clywed ganddo o Norwy!]**

Ar ôl blynyddoedd o weithio mewn llefydd mor ddiddorol â Jamaica, Uganda a Lloegr, dyma setlo i lawr yn Aas, Norwy. Y wraig, merch o Norwy, ddaeth â fi yma. Ar y dechrau, y bwriad oedd aros am flwyddyn - ond roedd hynny yn 1977! Gan nad oeddwn yn siarad yr iaith, mynychais yr Eglwys Saesneg yn Oslo, tua 25 milltir o'n cartref, ar y dechrau. Yna ar ôl 'meistroli' yr iaith Norwyeg dyma ddechrau mynd hefo'r teulu i'r eglwys Lutheraidd yma yn nhref Aas.

Yr Eglwys Lutheraidd ydi prif eglwys Norwy. Mae rhif yr aelodaeth tua 3.7 miliwn. Cefais yr eglwys yma yn Aas yn gartref ysbrydol gwych. Anodd meddwl am eglwys fwy byw yn unman.

Yn ystod y deugain mlynedd mae dau o'r gweinidogion wedi mynd yn esgobion, sef Halvar Nordhaug i Bergen a Helga Byfuglien yn 'preses'(archesgob) yr Eglwys. Aelod arall o'r eglwys, Olav Fykse Tveit, yw ysgrifennydd cyffredinol Cyngor Eglwysi'r Byd ers 2009.

Daw rhyw 120 ar gyfartaledd i oedfa fore Sul yn yr eglwys, ond llawer mwy yn ystod tymor Prifysgol Amaethyddol Aas. Mae'r myfyrwyr yn dod o bob rhan o'r byd ac fe gynigir cyfleusterau cyfieithu yn y gwasanaethau.

Tua 35 mlynedd yn ôl daeth criw ohonom at ein gilydd i adeiladu 'arbeidskirke' neu eglwys weithiol, lle llai ffurfiol na'r eglwys wreiddiol. Cawn un gwasanaeth y mis yno ac wedyn cyfarfod am baned a sgwrs. Bu'r adeilad yma yn ganolfan i bob math o weithgareddau. Pan oedd fy ngenod yn ifanc roedd mynd am dro i'r adeilad am sgwrs a chanu yn y côr yn rhan naturiol o'r wythnos.

Mae llawer ffordd i ddod â'r aelodau at ei gilydd. Pob blwyddyn mae taith o'r eglwys i lefydd gwahanol. Y daith gyntaf oedd drosodd i Gymru; yr organydd yn dreifio'r bws a finnau yn dweud yr hanes. Wrth deithio trwy Bontnewydd, buom yn ddigon ffodus i gael Bryn Terfel i ddod atom i ganu cân!

Bob bore dydd Mercher daw tua 50 ohonom at ein gilydd a'r drefn yw pregeth am 15 munud, bwyta ac wedyn hanner awr o 'ddiwylliant'. Mae'r ddwy awr hefo'n gilydd yn uchafbwynt yr wythnos i lawer sy'n unig.

Mae traddodiad cerddorol gwych yma. Llawer côr yn perthyn i'r eglwys: *Baluba* i'r plant bach; *TenSing* i'r rhai rhwng 14 ac 20 ac mae gan gôr yr oedolion hefyd tua 20 o aelodau. Mae'r safon mor dda fel y cawsant wahoddiad i ganu yn Eglwys Gadeiriol Efrog y llynedd. Maent wedi perfformio'r *Meseia* bob Nadolig ers blynyddoedd.

Mae'r YMCA/YWCA yn arbennig o gryf yma yn Norwy ac mae cangen dda yn yr eglwys yn Aas. Bu 42 cyfarfod ganddynt y llynedd gan gynnwys cyngherddau, noson hefo'r Beibl a chystadleuaeth chwarae tennis bwrdd.

Mudiad arall sy'n gryf ydi'r gwaith cenhadol. Mae'r eglwys yn helpu pentref yn Ethiopia. Oherwydd bod cysylltiadau cryf gan y Brifysgol ag amryw o wledydd, mae llawer ohonom wedi cael profiad o waith cenhadol. Treuliais fy nhair blynedd cyntaf fel athro yn gweithio ym Morant Bay, Jamaica, i'r Eglwys Fethodistaidd.



Mewn rhai gwledydd, yn wir, mae'r nifer sy'n mynychu'r gwasanaethau yn lleihau, ond ni ddylem ddigalonni. Rhwng 2005 a 2008 bu'r wraig a finnau'n dysgu yn Uganda ac yn mynychu'r Eglwys Watoto yno. Dechreuodd yr eglwys hefo grŵp bach yn cyfarfod i gael gwasanaeth Saesneg yn 1986. Ddiwedd yr amser yr oeddem yno yn 2008 roedd pedair eglwys wedi eu hadeiladu, rhai ohonynt â thri neu bedwar gwasanaeth ar fore Sul a rhwng y cyfan 22,000 o gynulleidfa.

Gyda llaw, un o'r emyndonau mwyaf poblogaidd yn ein gwasanaethau yma yn Aas yw **HYFRYDOL**!

# *Cyfarchion o Evesham*

## *gan Dr Telfryn Pritchard*

**Yr Eglwys Fethodistaidd, Evesham]**

Edrychaf ymlaen bob amser at dderbyn y *Gwyliedydd* a chael dilyn hanes Talaith Cymru, gydag atgofion hyfryd am y dyddiau gynt. A balch wyf i ymateb i ddymuniad Robin am ychydig o hanes sut mae'r Achos yn ein rhan ni o'r byd y dyddiau hyn.

Mae Eglwys Fethodistaidd Saesneg Evesham yn perthyn i Gylchdaith Stratford ac Evesham, ac yn rhan o Dalaith Birmingham, gyda'r Arolygydd yn byw yn Stratford a'r ail weinidog yma yn Evesham. Mae ef yn dod o Dde India, a da yw cael ein hatgoffa drwyddo ef fod Efengyl Iesu Grist i bawb o bobl y byd. Ar y Plan mae 19 o bregethwyr cynorthwyol ond dim ond 6 sy'n pregethu yn awr.





Ar hyn o bryd, mae gennym 135 o aelodau yn Evesham, ac mae i'r Gylchdaith 7 eglwys, a nifer ohonynt gyda dwsin neu lai o aelodau. Ond yn fuan iawn, bydd gofyn inni wynebu newid sylweddol. Fel eglwys yn Evesham, cawsom ddewis yn ddiweddar naill ai uno fel un gylchdaith gyda Chanolbarth Warwig, neu dderbyn bod Evesham, gyda dwy eglwys fechan arall, yn ymuno gyda de-orllewin Swydd Gaerwrangon. Dewisodd ein heglwys ni yr ail.

Gall yr uchod roi'r argraff ein bod yn eglwys sydd ar fin marw, ond byddai hyn yn bell o fod yn gywir oherwydd ni yw'r eglwys sydd gyda'r mwyaf o aelodau yn y gylchdaith, gyda rhyw 70 yn bresennol ar fore Sul, a nifer o blant yn ein gadael i fynd i'r Ysgol Sul. Ac rydym yn cyfrannu'n hael ar gyfer Cymorth Cristnogol a Gweithredu dros Blant a gofynion eraill, mae'r capel ar agor bob bore drwy'r wythnos ar gyfer te a choffi, ac mae cinio bob mis, gyda nifer dda yn bresennol. Yn sicr, nid lle ar gyfer y Sul yn unig sydd yma.


# *Diwrnod ym mywyd y Gynhadledd*

## *gan y Parchedig Martin Evans-Jones*

Cynhaliwyd y Gynhadledd Fethodistaidd yn Nottingham eleni o'r 28ain o Fehefin hyd y 5ed o Orffennaf yng nghampws hardd a helaeth Prifysgol y ddinas. Wedi taith hwylus ar y trên o Gaer cyrhaeddais mewn pryd i gofrestru yn Neuadd Cavendish ac ymuno â'r cynrychiolwyr eraill o bob Talaith ym Mhrydain ac o bob gwlad y mae'r Eglwys Fethodistaidd wedi sefydlu ei hun ynddi mewn gwahanol rannau o'r byd. Eisteddais gyferbyn â gwraig fechan groenddu wedi ei gwisgo mewn porffor a chap coch crwn ar ei phen a gwên fawr ar ei hwyneb. Hi oedd Hannah, Esgob a Llywydd yr Eglwys yn y Gambia. I feddwl ei bod mor fychan roedd yn hynod o ddewr. Dywedodd wrthyf ei bod wedi dwrdio Arlywydd y wlad am wrthod sefyll i lawr o'i swydd ar derfyn ei gyfnod a thaflu'r holl wlad i anhrefn llwyr gyda milwyr ac awyrennau bomio yn bygwth cychwyn rhyfel cartref. Erfyniai'r trigolion arni i ffoi am ei bywyd gyda hwy ond dewisodd aros am fod Duw wedi ei hannog i wneud. Llwyddodd i berswadio'r Arlywydd styfnig i ymollwng o'i deyrnasiad creulon ac arbed y wlad rhag galanast llwyr. "Cred yn Nuw a gwna dy waith" oedd ei thystiolaeth i mi.

Hanfod y Gynhadledd yw sgwrsio gyda phobol anghyffredin fel hon. Wedi cyrraedd y Neuadd mewn pryd i glywed araith y Llywydd a'r Is-lywydd newydd, eisteddais gyferbyn â gwraig arall groenddu oedd yn weinidog ar eglwys yn Llundain a chanddi doreth o bobol ifanc yn aelodau brwdfrydig. Cyfaddefais mor anodd yr oeddwn yn ei chael hi i ddenu pobol ifanc i'm heglwys yn Rhuthun lle roeddem i gyd bron dros oed yr addewid. Dywedodd wrthyf am weddïo'n daer ac y byddai Duw wedyn yn sicr o ddod â gweithwyr newydd i'r winllan.

Gwrandewais yn astud ar araith yr Is-lywydd, sef brodor o Sri Lanka, **Bala Gnanapragasam**, a ddaeth i'r coleg yn Llundain ac ymgartrefu yno a dod yn aelod brwdfrydig o'r Eglwys ar hyd ei oes. Soniodd am bwyslais John Wesley ar **sancteiddrwydd cymdeithasol** ac am bwysigrwydd dysgu oddi wrth y rhai sydd yn brwydro yn erbyn anghyfiawnder a thlodi. Heriodd ni i fyw o hyd mewn gobaith. Mewn amser o ddirywiad rhaid dal at y gred fod Duw yn newid pethau er gwell ac yn galw am deithiau newydd arbrofol. "Yr ydym yn byw rhwng y Groes a'r Atgyfodiad," meddai, ac mae pob argyfwng yn ein gyrru yn ôl at Dduw.







Gwelais ei bod yn hen bryd i ni yng Nghymru fach sylweddoli fod yr Eglwys Fethodistaidd bellach yn gymuned fywiog fyd eang o bob lliw a llun sydd yn cael gwers bwysig gan aelodau llawn ffydd a gorfoledd yn y Duw byw nad yw byth yn gadael neb i lawr. Beth bynnag a brofaf yng ngweddill o'r Gynhadledd arbennig hon, yn y 24 awr cyntaf cefais ddigon i fyfyrio amdano. Fel y dywedodd Arfon wrth dynnu ar ei getyn: "Ein Tad sydd wrth y llyw". Diolch unwaith eto am y fraint o gael mynd yno.

# Capel Ni yn Eglwys Iesu

Braf iawn oedd clywed y bwrlwm yno ac acen dlos trigolion Sir Drefaldwyn. Diolch i Edwina a Bob am harddu'r addoldy â blodau. Mae'n braf iawn cael defnyddio'r festri ar ôl cael toiled newydd o fewn yr ystafell.

Da oedd cael croesawu'r Parchedig Dilys Jones, Amwythig, atom i gynnal oedfa. Cofiwn gydag anwyldeb am ei gweithgarwch tra bu ei diweddar briod y Parchedig Alec Jones yn Arolygwr arnom yn ystod y 1970au.

Gwasanaeth Gweithredu dros Blant oedd thema Elizabeth mewn oedfa o dan ei harweiniad hi. Cyfeiliwyd yn ystod Mehefin gan Rhian a Meta a llywyddwyd gan Rhodri a Dafydd.

**PORTMEIRION**
Ar ddiwrnod hynod o heulog cafwyd cyfle i ymweld â'r pentref hudolus hwn. Braint oedd cael gwrando ar hanes y mudiad arbennig, Gweithredu dros Blant, a'r gwaith anhygoel y maent yn ei wneud gyda theuluoedd difreintiedig. Ymhlith y siaradwyr yr oedd y Chwaer Eluned Williams, a fu'n hynod weithgar gyda'r mudiad ac yn gweithio flynyddoedd yn ôl yn rhai o'r cartrefi. Derbyniodd Eluned yr M.B.E. am ei gwaith. Cafwyd cyfle i gymdeithasu yng Ngwesty Portmeirion a mwynhau cinio blasus. Diolch i'r rhai fu'n brysur yn trefnu'r achlysur – diwrnod i'w gofio yn sicr.

**CYMORTH CRISTNOGOL**
Braf oedd dod at ein gilydd i gapel Pendref, Rhuthun. Thema'r gwasanaeth a'r wythnos eleni oedd "Mae teyrnas Dduw yn gryfach na stormydd" a chymerwyd rhan gan aelodau'r gwahanol gapeli ac eglwysi.

**CYNHADLEDD PREGETHWYR CYNORTHWYOL**
Hyfryd oedd teithio dros fynydd y Berwyn ar ddiwrnod heulog o Fai, i dref Llanfyllin. Cafwyd cyfarfod bendithiol dan arweiniad y Parchedig Jennie Hurd. Calonogol yw gweld rhai yn dilyn hyfforddiant i'w derbyn yn bregethwyr cynorthwyol. Cafwyd cyflwyniad sionc gan Bet Holmes, hithau hefyd yw ysgrifennydd Cynhadledd y Pregethwyr. Diolch o galon i chwiorydd Llanfyllin am y croeso a'r lluniaeth ysgafn.

**GOHEBYDD .** ELIZABETH JONES

## Salem, Rhyd y Foel

**CYMDEITHASU**
Ddydd Sul Mehefin 3ydd fe aeth nifer o aelodau, cyfeillion a phlant Salem i'r Dafarn Newydd, Trofarth am ginio Sul.

## Ebeneser, Trefor, Môn

**CYFARFOD PREGETHU**
Cynhaliwyd ein cyfarfod pregethu blynyddol nos Wener Mehefin 16 a daeth nifer o drigolion yr ardal i ymuno â ni. Y pregethwr eleni oedd y Parchedig Euron Hughes. Magwyd Euron yn Seion, Llanddeiniolen ond erbyn hyn mae'n byw yn Llanuwchllyn ac yn weinidog gyda'r Annibynwyr yn ardal Dolgellau a Dinas Mawddwy. Cafwyd gwasanaeth arbennig o dda o dan ofal person ifanc bywiog a brwdfrydig. Croesawyd Euron a diolchwyd iddo gan ein gweinidog y Parchedig Richard Gillion a'r organydd oedd Mrs Gwyneth Thomas.

**DAMWAIN**
Syrthiodd Mrs Gwyneth Thomas yn yr ardd a thorrodd ei braich yn ddrwg sy'n golygu wrth gwrs nad yw yn gallu cyfeilio ar hyn o bryd. Gobeithio y bydd yn gwella'n fuan ac yn gallu dod yn ôl i'w sedd arferol wrth yr organ. Daeth ein gweinidog y Parchedig Richard Gillion i'r adwy ar y Sul cyntaf wedi'r anffawd gan ddod â'i gitâr gydag ef. Roedd yn cyfeilio ar y gitâr ac yn canu'r emynau – mae ganddo lais arbennig o dda!

**COFION**
Anfonwn ein cofion at y Parchedig Gwynfor Williams yn dilyn triniaeth ar ei ben-glin a gobeithio y bydd yn gwella'n fuan.

**GOHEBYDD .** CARYS THOMAS

## Tabernacl, Llanfyllin

**GWEITHREDU DROS BLANT**
Mae'n draddodiad bellach yn Llanfyllin ar ŵyl banc mis Mai, i Decia a Keith Blacker drefnu Te Prynhawn a Mynd am Dro i'r Goedwig ychydig tu allan i'r dref. Eleni wrth gwrs roedd y tywydd yn ddelfrydol. Roedd y blodau a'r cacenni'n hyfryd iawn. Llwyddwyd i godi £237 at elusen Gweithredu Dros Blant. Mae Decia hefyd yn trefnu nifer o weithgareddau eraill at yr elusen yma. Mewn oedfa yn ddiweddarach yn y mis diolchodd Robin Hughes i bawb oedd wedi cefnogi'r achlysur hwn.

**GWELLHAD**
Dymuniadau gorau i Rhoswen Charles, Ysgrifennydd Cangen Llanfyllin Cymorth Cristnogol a Chadeirydd Drws Agored Llanfyllin. Mae wedi derbyn llawdriniaeth ar ei chlun a bu'n aros yn Llwyn Teg sef Cartref yr Henoed yn Llanfyllin nes gallu mynd adref. Dymunwn wellhad i Norman Williams, gŵr y Cynghorydd Ann Williams (sydd wedi ysgogi merched y capel i godi arian at elusennau).

**CYMORTH CRISTNOGOL**
Cynhaliwyd yr oedfa ddwyieithog flynyddol eleni yng nghapel Pendref o dan arweiniad y Parchedig Gwyndaf Richards, cadeirydd Cymorth Cristnogol yn lleol, gyda chymorth Ross Crawford o Eglwys Myllin Sant. Y cyfeilydd oedd Eldrydd Jones.

**DRWS AGORED**
Croesawyd Lloyd Davies o Lansanffraid at gyfeillion Drws Agored i sôn am ei daith i Batagonia a drefnwyd gan fudiad Urdd Gobaith Cymru. Cafodd Lloyd y profiad bythgofiadwy o deithio gyda nifer o ieuenctid o bob rhan o Gymru. Trwy weld lluniau a chlywed straeon Lloyd, cawsom ninnau brofiad o'r daith.

**BEDYDD**
Daeth teulu a ffrindiau ynghyd i Gapel y Tabernacl ar bnawn Sul olaf mis Mai, i achlysur hapus iawn sef bedydd Huw Emyr. Mab i Rhys a Kelly Roberts, Bodyddon Isaf, yw Huw ac ŵyr i Elwyn a Llywela Roberts, trysoryddion y Tabernacl. Tom Ellis oedd yn gweinyddu a rhoddodd sylw arbennig i'r nifer o blant oedd yn yr oedfa. Y tad bedydd oedd Gareth Jones a Llywela, nain Huw, oedd wrth yr organ. Darllenwyd pennill arbennig i'w brawd bach gan Celyn, ei chwaer chwe mlwydd oed.

**LLWYDDIANNAU DAU FRAWD**
Llongyfarchiadau i Gerwyn a Rhodri Jones, Yr Ogof, ar eu llwyddiannau yn graddio eleni: Gerwyn yn ennill Gradd M.Phys ym Mhrifysgol Caerdydd mewn Ffiseg a Seryddiaeth a Rhodri y brawd hynaf wedi ennill Gradd M.A. o Goleg Cerdd a Drama Caerdydd lle bu'n astudio Opera. Maent yn wyrion i Geraint Jones, Hafodunnos. Dymunwn yn dda iddynt i'r dyfodol. Mae Rhodri a Gerwyn yn gyn-ddisgyblion gweithgar o Ysgol Sul Undebol y Tabernacl Llanfyllin a buont yn aelodau o Gwmni Theatr Maldwyn.

**GOHEBYDD .** ROBIN HUGHES

## Pont Robert

**LLONGYFARCH**
Llongyfarchiadau calonnog i Rhodri a Gerwyn Jones ar eu llwyddiant. Pob dymuniad da i'r ddau, sydd yn wyrion i Tegwyn Jones, Brynderwen. Llongyfarchiadau mawr hefyd i Sioned Watkin, Abernaint, sydd yn wyres i Llinos a Bryan Jones Tyn-y-wig, ar dderbyn Gradd mewn Nyrsio. Dymuniadau gorau i chwi eich tri.

**GOHEBYDD .** MARGARET BLAINEY

## Ebeneser, Treuddyn

**CYDYMDEIMLO**
Cydymdeimlwn yn ddwys â Mr Ron Griffiths, sydd wedi colli brawd yn ddiweddar, sef Mr Harold Griffiths oedd yn byw yn Eryrys. Cynhaliwyd yr angladd yng nghapel Ebeneser, Treuddyn dan arweiniad ein gweinidog y Parchedig Eirlys Gruffydd Evans gyda Mrs Margaret Roberts wrth yr organ. Anfonwn ein cofion cywiraf at yr holl deulu yn eu colled.

**COFION**
Anfonwn ein cofion cynhesaf at y rhai sydd ddim wedi bod yn dda yn ddiweddar ac yn methu dod i'r capel.

**CROESO CYNNES**
Rydym yn gobeithio y bydd llawer yn ymuno â ni yn ein Te Prynhawn blynyddol yn Hafan Deg ar ddydd Sadwrn, Medi 8fed am 3 o'r gloch, pan fydd cyfle i gymdeithasu â thrigolion yr ardal. Y diwrnod canlynol, dydd Sul, Medi 9fed cynhaliwn ein Cyfarfod Pregethu am 6 yr hwyr pan fydd y Parchedig Gwyndaf Richards, Llwydiarth gyda ni. Hefyd, ar nos Sul, Hydref 14eg bydd y Parchedig Robert Parry, Wrecsam yng ngofal ein gwasanaeth Diolchgarwch. Estynnwn groeso cynnes i bawb ymuno â ni yn y gwasanaethau hyn.

**GOHEBYDD .** GLENYS DAVIES

## Ebeneser, Caernarfon

**GWELLHAD BUAN**
Anfonwn ein cofion cynhesaf at y Parchedig Gwynfor Williams a gafodd ben-glin newydd yn ddiweddar. Y camau yn araf ond serch hynny y cryfder yn dychwelyd yn foddhaol. Ein cofion cynhesaf hefyd at Olwen Hefina Hughes, sydd wedi cael triniaeth yn Ysbyty Gwynedd ddwy waith yn ddiweddar, a'i phriod Ieuan a gafodd driniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd. Aethpwyd â Blodwen Griffiths i'r ysbyty yn hollol ddisymwth yn ddiweddar a da gennym wybod fod ei hiechyd yn gwella ar ôl cael 'pace maker'.

**CYDYMDEIMLO**
Fel eglwys cydymdeimlwn yn ddwys â Megan Roberts ym marwolaeth ei chwaer Mary, a fu'n wael am gyfnod maith ond gan wynebu'r gwaeledd yn ddi-gŵyn.

**CROESO**
Yn ystod Mehefin cawsom y cyfle i groesawu Rhian Evans-Hill i'n plith. Mae Rhian yn arweinydd addoli sydd yn cynorthwyo'r Parchedig Richard Gillion yng ngwasanaethau'r Sul yn Ardal Môn ac Arfon. Cymerodd ran yn Ebeneser gydag urddas gan lefaru'n glir. Ar ei hail ymweliad bu'n cynorthwyo'r gweinidog yn ystod y Cymun Sanctaidd.

**GOHEBYDD .** BRANWEN L. EDWARDS

## Shiloh, Tregarth

**GWELLHAD**
Gwellhad llwyr a buan i'n horganydd, Wynn Williams, sydd wedi cael pen-glin newydd yn Ysbyty Gobowen ddiwedd Mehefin. Da oedd ei weld yn dychwelyd at yr organ o fewn ychydig dros wythnos i gael y llawdriniaeth. Diolch, Wynn!

**PROFEDIGAETH**
Daeth profedigaeth i ran Valerie Ellis Jones pan fu farw gŵr i gyfnither Val sef Ralph Aston, Maes Ogwen, Tregarth. Cydymdeimlwn â'r holl deulu.

**NAIN A TAID**
Llongyfarchiadau i Gwenda a Glyn Davies, ar ddod yn Nain a Taid i ferch fach eu mab Siôn Glyn a'i briod Elinor yn Gerlan, Bethesda a chwaer fach i Mali Non.

**DRWS AGORED**
Cofiwch fod croeso, cwmni, paned a sgwrs yn Shiloh bob bore Gwener rhwng 10 a 12 o'r gloch. Croeso i bawb.

**CYDYMDEIMLO**
Anfonwn ein cydymdeimlad at deulu sydd yn byw yn Hen Golwyn, sef Ceri a Greg George. Cawsant brofedigaeth fawr ar Fehefin 25, o golli eu merch 12 oed, wedi gwaeledd hir, sef Beca Cerys, oedd yn chwaer i Jac. Mae Ceri yn un o ferched Maud Griffiths, Gilfach, Dob, a bu'n mynychu'r Ysgol Sul yma yn Shiloh tra roedd yn yr ysgol ac fe gafodd ei derbyn yn aelod yma gyda ni. Rydym yn meddwl amdanoch yn eich tristwch o golli Beca.

**GOHEBYDD .** GWENDA DAVIES

## Pendref, Dinbych

**OEDFAON BENDITHIOL**
Cynhaliwyd oedfaon bendithiol yn ystod Mai a Mehefin dan ofal y Parchedigion Eifion G Jones, Glyn Thomas a Jennie Hurd a hefyd Royce Warner. Hoffem ddiolch yn ogystal i'r rhai a gymerodd ran yn y ddau gyfarfod gweddi a gynhaliwyd pan nad oedd pregethwr ar gael.

**MHA**
Bore dydd Sul Mehefin 24ain cynhaliwyd oedfa arbennig a bendithiol i ddathlu a chofio am 75 mlynedd o'r MHA. Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth, a oedd o dan ofal y Parchedig Tudur Rowlands, gan Heulwen Ellis, Sheila Thomas, Elfed Evans a Gwyn Williams.

**FFAIR WANWYN**
Bore dydd Sadwrn, Mai 5ed cynhaliwyd ein Ffair Wanwyn yng Nghanolfan Eirianfa, sydd drws nesaf i'r capel. Daeth nifer dda o drigolion Dinbych a'r cylch i gefnogi achlysur llwyddiannus dros ben a gwnaed elw ariannol eithaf sylweddol. Diolch am gyfraniad pawb tuag at y ffair.

**DYMUNIADAU GORAU**
Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau da am wellhad buan i nifer o'n haelodau. Dymunwn ben-blwydd hapus i amryw a fu'n dathlu penblwyddi yn ddiweddar, gan gynnwys dau sydd erbyn hyn dros ddeg a phedwar ugain oed, sef Mrs Mair Rees a'r Parchedig Cledwyn Parry.



**HARDDU'R ADDOLDY**
Mae'r Rheilen Gymun a fu'n harddu'r Sedd Fawr yng nghapel Peniel Llanelwy bellach wedi ei haddasu a'i gosod yn Festri Uchaf Pendref. Cynlluniwyd y rheilen wreiddiol gan y Parchedig Cledwyn Parry. Fe'i haddaswyd ar gyfer Pendref gan Gareth Jones o gwmni Celtic Dreams Ironworks, Dinbych. Bu Gwyn Williams yn brysur yn paentio a thacluso'r rheilen ac fe'i gosodwyd yn ei lle gan Hywel Evans a Gwyn Williams. Ein diolch i Gareth, Gwyn a Hywel am eu gwaith.

**GOHEBYDD .** MARY JONES



# Cariad ar Waith

## gan Dean Pettipher

*[Mae Dean yn gwneud gwaith cyfathrebu ac ymchwil gyda Gweithredu dros Blant, fel rhan o gynllun yr Eglwys Fethodistaidd i gynnig swydd gychwynnol i bobl ifanc, gweler http://www.methodist.org.uk/about-us/connect/jobs-volunteering/one-intern/]*

Mae gwaith *Gweithredu dros Blant* yn wirioneddol amrywiol. Rydym yn helpu plant a phobl ifanc ym mhob rhan o'r DU. Mae'n dipyn o her ceisio cyfleu mewn ychydig eiriau sut rydym yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl. Ond os edrychwn yn fanylach ar un gwasanaeth – un o blith tua 600 o gynlluniau sy'n cael eu rhedeg gan yr elusen – gallwn gael amcan go lew beth y mae *Gweithredu dros Blant* yn ei gyflawni.

Os oes plentyn anabl yn y teulu, gall fod yn waith caled gofalu amdano. Ym Mhont-y-pŵl, mae Gwasanaeth Plant a Theuluoedd Tafarn Newydd yn cynnig cymorth i wneud bywyd yn haws. Cynigir seibiant byr yn rheolaidd i deuluoedd fel na fydd y gwaith gofalu yn mynd yn drech na nhw. Caiff plant o bedair oed i fyny sydd ag awtistiaeth fynd i'r ganolfan bob dydd i chwarae, dysgu a datblygu mewn amgylchedd diogel a hapus. Trefnir cymorth amlasiantaeth i ddiwallu eu hanghenion penodol.

Daw plant a phobl ifanc sydd â gwahanol fathau o anabledd i'r Dafarn Newydd ar ôl oriau ysgol a chânt ddewis gweithgareddau i'w mwynhau yn eu cymuned leol. Ar ddydd Sadwrn hefyd, cynigir seibiant byr i blant rhwng 8 a 18 oed sydd yn cael anawsterau neu sydd â diagnosis o anabledd. Trwy gyfrwng y gweithgareddau hyn mae plant yn magu hyder ac yn cymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau yn eu cymuned. Yn y cyfamser, bydd rhieni a gofalwyr yn cael seibiant rheolaidd a chyfle i wneud pethau fel siopa, sy'n gallu bod yn anodd gyda phlentyn sydd ag anghenion ychwanegol.

Mae rhoddion hael holl gefnogwyr *Gweithredu dros Blant* a'r ymgyrchoedd codi arian yn golygu bod cymorth ar gael i blant a theuluoedd beth bynnag fo eu hanghenion. Diolch i chi am eich haelioni.

## Rhoddion

Hoffem ddiolch i'r canlynol am eu rhoddion tuag at *Gweithredu dros Blant*, sydd wedi dod i law ers rhifyn diwethaf y *Gwyliedydd*:

| | |
|---|---|
| Y Chwaer Eluned Williams | £20.00 |
| Elisabeth a Bob Jones, Pentrecelyn | £30.00 |

Anfonwyd cyfanswm o £50.00 yn enw Synod Cymru.

**Rhaghysbysiad**: Byddwn yn lansio ein hymgyrch i gasglu anrhegion Nadolig ym mis Medi. Edrychwch allan am y taflenni.

Y Parchg. Marc a Mrs Margaret Morgan




John, Steve ac Andrew o'r Wyddgrug, tri sy'n cefnogi Gweithredu dros Blant ac a gwblhaodd Farathon Llundain i godi arian.

# Haydn Thomas (1922-2018)

## gan y Diacon Gwenllian Roberts Knighton

Gyda marwolaeth Mr Haydn Thomas mae Capel Methodistaidd, Stryd y Farchnad, Y Fenni, wedi colli un o'i aelodau mwyaf ffyddlon. Ond nid aelodau'r capel yn unig fydd yn gweld ei eisiau. Bu Haydn yn gadeirydd Cymdeithas y Cymreigyddion yma am nifer o flynyddoedd ac yn ysgrifennydd ar gyfer y gwasanaethau Cymraeg a gynhelir yn fisol yn yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig.

Yn enedigol o'r Hendy ger Llanelli, bu Haydn yn y Llu Awyr cyn dilyn gyrfa ym myd addysg lle bu'n arloeswr - fel athro ac wedyn prifathro cyntaf Ysgol Glan Clwyd ac yn Ysgol Emrys ap Iwan Abergele. Golygai hyn hefyd, yn nyddiau cynnar addysg uwchradd drwy gyfrwng y Gymraeg, baratoi adnoddau dysgu newydd ar gyfer y dosbarthiadau.

Yn y gwasanaeth a gynhaliwyd i ddiolch amdano (yn gyfan gwbl yn Gymraeg, gyda chlustffonau a chyfieithu ar y pryd i bobl nad oedd yn deall!) roedd yn amlwg fod edmygedd a pharch mawr tuag ato. Diffuantrwydd, hiwmor a chonsýrn dros eraill yw rhai o'r nodweddion sy'n dod i'r meddwl yn syth. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf wynebodd brofedigaethau anodd. Yn 2015 bu farw Nancy, ei wraig (Cernywes, a fu'n aelod yng Nghapel Methodistaidd St Paul, Abergele, ac yn oruchwylwraig cylchdaith). |Ychydig wythnosau cyn marwolaeth Nancy, ac yn gwbl annisgwyl, bu farw ei fab-yng-nghyfraith John, ac yna yn 2017 ei ferch Ceri (oedd yn ffrind i minnau).

Pan soniais wrth y diweddar Barchedig Hugh Rowlands ein bod ni'n symud yn ôl i'r De yn 2006 a hynny i'r Fenni, dywedodd yntau: "O, byddwch yn mynd at Mr Haydn Thomas, felly". Doeddwn i ddim yn hoffi cydnabod ar y pryd nad oedd gen i ddim syniad pwy oedd o, ond yn amlwg roedd popeth am fod yn iawn os byddem yn byw yn yr un dref â Haydn! A gwir hynny - mae wedi bod yn fraint ei adnabod. Diolch i Dduw amdano.

Dyma oedd ar flaen taflen y gwasanaeth:

*Wyt ŵr y Ffordd, tŵr y Ffydd,*
*derwen o gyn-gadeirydd:*
*un â'th iaith a'th waith a'th wên*
*yn hwyliog fel gwres heulwen.*

(Desmond Healy i Haydn yn gant namyn deg)



# Gweddi'r Arglwydd

## gan Dafydd Watkin

**[Mae Dafydd, sydd yn byw yn Llandudno, yn un o'r criw sydd yn dilyn y cwrs Addoli: Arwain a Phregethu i gymhwyso fel pregethwr lleol yn yr Eglwys Fethodistaidd.]**



Penderfynais rannu'r ysgrif hon ar weddi'r Arglwydd gyda chi am y credaf fod gweddi yn fater hanfodol ym mywyd yr eglwys. Yn Efengyl Mathew mae lle amlwg i weddi yn y Bregeth ar y Mynydd a holl bwyslais yr Iesu yn y bregeth hon ydi pwysigrwydd y galon ym mhopeth a wnawn. Fe ddysgwn nad hyd unrhyw weddi sy'n bwysig ond yr hyn sydd yn y galon. Yn Efengyl Luc mae'r disgyblion yn gofyn i'r Arglwydd ddysgu iddynt weddïo fel y dysgodd Ioan ei ddisgyblion ond yr un pwyslais sydd yma.

Hoffwn ganolbwyntio'n fyr ar dri pheth sy'n codi o weddi'r Arglwydd er mwyn i ninnau ddysgu sut i weddïo gyda ffocws a myfyrdod. Felly mae gweddi yn golygu perthynas fywiol gyda Duw, mae'n golygu dibyniaeth ar Dduw ac mae'n golygu addoli a gogoneddu Duw.

Yn gyntaf, mae gweddi yn golygu **perthynas fywiol gyda Duw**. Iaith perthynas sydd yma. Wrth ddweud "ein Tad" fe ddangoswn fod perthynas ag Ef. Gwyddom hefyd y cawn y berthynas hon drwy Iesu Grist. Does neb yn dod at y Tad ond trwyddo Ef a thrwyddo Ef y cawn agosáu at y Tad gan ddweud yn hyderus "ein Tad". Cael ein derbyn i'w deulu drwy ei gariad rhyfeddol. Ond cofiwn hefyd ei fod yn Arglwydd yn y nef a'n braint ni yw ei addoli. Mae'n ddyrchafedig, mae'n sanctaidd ac mor wahanol i ni – ein gwaith ni yn ein bywydau bob dydd yw ei addoli. Gwneler Dy ewyllys. Dysg inni blygu ger dy fron. Deled dy deyrnas. Gweddïwn y daw pobl eraill i'w adnabod.

Yn ail, mae gweddi yn golygu **dibyniaeth ar Dduw**. Fel rhai sy'n rhan o deulu Duw dibynnwn ar Dduw bob eiliad o'r dydd. Dyna pam y canwn "mae d'eisiau Di bob awr". Dibynnwn arno am ein bwyd beunyddiol. Gweddïwn hefyd am ras i ymddiried yn yr Arglwydd. Er ein bod yn ei adnabod rydyn ni'n syrthio a baglu yn aml ac felly gofynnwn am ei faddeuant ac am ei ras i'n helpu i faddau i eraill. Gweddïwn am help pan wynebwn dreialon o bob math a dibynnwn ar yr Arglwydd am gymorth.

Yn drydydd, mae gweddi yn golygu **mawrygu Duw bob amser**. Iddo Ef y bo'r clod. Mae perthynas â Duw yn golygu plygu ger Ei fron, yn Dad ac yn Fab ac yn Ysbryd Glân. Gogoniant i'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân megis yr oedd yn y dechrau, y mae yr awr hon ac y bydd yn wastad yn oes oesoedd. Mae pob dim yn llaw Duw. Ef sy'n teyrnasu ac iddo Ef y bo'r gogoniant. Felly mae gweddi yn golygu perthynas gyda Duw, dibyniaeth ar Dduw a chalon i'w addoli. Dyma fraint yn wir yn y dyddiau hyn. Nesáu at Dduw sydd dda i ni.

# "Gan drigo mewn pebyll"

## gan y Canon Idris Thomas

I lawer, mis gwyliau yw Awst. Mis mynd am newid, mis y babell a'r garafán a mis i ymlacio. Fe gâi fy nhad ar ddechrau Awst bythefnos o wyliau prin o galedi Chwarel Dinorwig ac roeddem fel pump o blant yn ddyledus iawn i'n rhieni am fynd â ni i rywle bob dydd o'r pythefnos. Nid oedd fy nhad yn berchen ar gar ond roedd tripiau'r cwmni bysiau lleol o Ddeiniolen a'r trên o stesion Bangor yn ein cludo i bob man yng ngogledd Cymru. Hoffaf englyn y diweddar Barchedig Roger Jones o Lŷn i Awst:

"Mis teg, adeg i oedi, - Awst annwyl,
Awst a'i wenau'n poethi;
Nef y tes, llawn haf wyt ti,
Dy gymydog yw Medi".

Ie, diolch am y cyfle blynyddol i droi ein cefn ar wegi'r byd a threwy gymundeb â natur, boed ar fôr neu fynydd, anadlu i'n cyfansoddiad nerth newydd yr hwn a'i creodd oll.

Gellir disgrifio yr Eisteddfod Genedlaethol bob Awst wrth gwrs yn Ŵyl y pebyll gan mai gŵyl symudol yw hi: un wythnos ac yna tynnir y pebyll mawr a bach i lawr am flwyddyn arall. Ie, rhyw fis penchwiban yw Awst - mis y babell a'r pethau dros dro. Os trowch at y Llythyr at yr Hebreaid ceir cyferbyniad rhwng pabell a dinas yn achos Abraham -"trwy ffydd yr ymfudodd i wlad yr addewid...a thrigodd mewn pebyll...oherwydd yr oedd ef yn disgwyl am ddinas ac iddi sylfeini a Duw yn bensaer ac yn adeiladydd iddi" (Heb. 11:9).




Symudodd Pabell y Cyfarfod (dros dro) gyda chenedl Israel trwy'r anialwch gynt ond ar ôl cyrraedd dinas Jerwsalem codi Teml (sefydlog) a wnaethpwyd.

Os mis y babell felly a'r pethau dros dro fydd Awst eleni i amryw ohonom mae cyfle, serch hynny, yn y dyddiau hyn i gydio yn y pethau na dderfydd. Yng nghanol Awst mae dydd fy mhen-blwydd a dathlaf ef eleni drwy fod mewn priodas yn Eglwys Llanfihangel Ystrad, Felinfach. Edrychaf ymlaen yn fawr i fod yn Nyffryn Aeron ac i fod yng nghwmni pobl hoff a chroesawgar Ceredigion, ym mhriodas Sara Mair a Dafydd Aled. Wrth sôn am eglwys, bob haf byddwn yn ymweld ag eglwys fach Llangelynnin rhwng y Friog a Thywyn – ardal ddelfrydol yw hon i godi pabell, beth amdani eleni? Gadawaf i R.J.Rowlands sôn am apêl Eglwys fach Llangelynnin a'i gwerth mewn cyfnod o sychder crefyddol yma yng Nghymru –

"Yn wylaidd, awn i'w gweled, a'i cho maith,
Uwch y môr gwargaled;
Heddiw crair, o hirddydd cred,
I'r diangor a'i dynged".

# Cadw'r Ffydd

## gan y Parchedig J Bryn Jones

Pan gefais fy rhyddhau o wasanaeth gyda'r Awyrlu ym 1947, dychwelais i Gorris ger Machynlleth a chyfarfûm â dau weinidog ifanc - Erfyl Blainey a Glyn Williams - a thrwy eu cyfeillgarwch, deuthum yn ymgeisydd gyda'r Eglwys Fethodistaidd. Treuliais flwyddyn fel gweinidog ar brawf yng Ngherrigydrudion cyn mynd i'r Coleg Diwinyddol yn Handsworth Birmingham, lle treuliais dair blynedd hapus iawn. Dyna hefyd lle yr hyfforddwyd y Parchedigion J. Haines Davies, Cledwyn Parry, Emrys Evans ac eraill.

Cyn cael fy nerbyn yn ymgeisydd, cyfarfûm hefyd â Maldwyn Roberts o Ddolwyddelan, un oedd yn swyddog gyda'r Comisiwn Coedwigaeth. Daethom yn ffrindiau yn y ffydd a daeth ef yn ymgeisydd a mynd i'r Coleg Diwinyddol yn Aberystwyth. Ar ôl gorffen ei gyfnod yn y Coleg, derbyniodd Maldwyn alwad i fod yn weinidog ar Gaersalem yn y Fflint. Wedi cyfnod yno, symudodd i'r ofalaeth yn eglwys Bala Deulyn yn Nyffryn Nantlle. Pan oeddem fel teulu yn Berffro, clywais fod Maldwyn yn symud i Batagonia i fod yn weinidog ar rai o eglwysi'r Wladfa. Cytunodd y ddau ohonom i gadw mewn cysylltiad ond yn anffodus ni ddigwyddodd hynny, a thybiaf ei fod erbyn hyn wedi ein gadael. Yn anffodus, ni wn chwaith ble mae'r teulu.

Un Nadolig, derbyniais lyfr gan Maldwyn 'The Greatest Thing in The World' a ysgrifennwyd gan weinidog gyda'r Presbyteriaid yn yr Alban. Canolbwynt y llyfr yw cariad, ac mae emyn mawr yr Apostol Paul yn crynhoi'r cyfan: "Mewn gair, y mae ffydd, gobaith, cariad, y tri hyn, yn aros. A'r mwyaf o'r rhain yw cariad." (1 Cor. 13 : 1-13).

Rhyfeddaf at y gwaith gwerthfawr a gyflawnodd yr Apostol Paul, yn teithio miloedd o filltiroedd i ledaenu'r newyddion da am Grist i'r eglwysi a sefydlodd ac a fugeiliodd yng ngwledydd Môr y Canoldir. Wedi cyrraedd Rhufain, cymerwyd ef yn garcharor ac fe'i dienyddiwyd. Petai wedi cael byw, ni fyddai'n syndod petai wedi croesi'r moroedd i ynysoedd Prydain, ond gwnaeth eraill hynny, ac iddynt hwy y mae'r diolch am ein Cristnogaeth heddiw. Bu sawl ymdrech galed i gadw'r Ffydd yn fyw a dylem holi ein cydwybod a gofyn i ba raddau yr ymdrechwn ninnau heddiw dros yr Efengyl. Nid yw mynychu'r gwasanaethau ond rhan o'n cyfraniad; mae gwir angen i ni fyw y Ffydd yn ddyddiol a bod yn gymdogol tuag at ein gilydd.

A minnau bellach yn dathlu cyfnod o 70 mlynedd o bregethu, cynhaliwyd cyfarfod i ddathlu gan eglwysi Cymraeg Yr Wyddgrug yn Ionawr eleni. Yn anffodus, methais fod yno oherwydd haint ar y frest, ond diolchaf i bawb, yn enwedig fy nheulu am bob cymorth a chefnogaeth ar y daith.

---

# Y Capsiwl Amser

## gan y Parchedig Richard Gillion

Llythyr yw hwn i'w osod mewn capsiwl amser.

Annwyl Ffrind yn y Dyfodol,
Dwi dros chwe deg oed, felly does dim posibilrwydd y bydda i o gwmpas am gan mlynedd arall, er bod pobl heddiw'n byw hirach nag erioed o'r blaen.

Tybed pa rai o'r pethau dwi'n gyfarwydd â nhw fydd wedi diflannu? Beth fydd yn para am ganrif arall? Dwi'n meddwl am ddarnau o roc. Dyfeisiau o'r oes fictorianaidd yw'r rhain, sy'n cyfuno darn o felysion ag elfen o gerdyn post i atgoffa rhywun o gyrchfan gwyliau, neu i gyfleu dymuniadau da i ffrindiau a theulu. Pwy fyddai wedi meddwl y gwnâi rhywbeth mor hen ffasiwn bara mor hir, pan fo cymaint o bethau wedi diflannu, hyd yn oed yn ystod fy oes i, fel awyrennau masnachol uwchsonig.

Yn y mil naw pumdegau cawson ni addewid o bŵer trydanol trwy ymasiad niwclear.  Cafodd y bom hydrogen cyntaf ei ffrwydro ym 1952. Byth ers hynny mae pŵer ymasiad niwclear wedi bod "hanner can mlynedd i ffwrdd". Am faint fydd o'n aros mor bell i ffwrdd? Hyd byth, neu ydy o wedi cael ei gyflawni yn eich dyddiau chi?

Pan o'n i'n dair ar ddeg oed, mi wnaethon ni wylio dynion yn glanio ar y lleuad am y tro cynta. Pan o'n i'n un ar bymtheg mi wnaeth ein cynrychiolwyr adael y lleuad am y tro diwetha, neu am y tro ola am ganrifoedd i ddod, hyd y gwn i. Mae ein hymdrechion presennol yn canolbwyntio ar y blaned Mawrth. Tybed ydyn ni yno eto?

Mae na un peth dwi'n siŵr ohono: bydd raid i bobl gael cariad, maddeuant, gobaith a phwrpas yn eich dyddiau chi fel yn ein dyddiau ni.

Efo pob dymuniad da,

Richard Gillion
Eich Ffrind o 2018.



# Bwyd i'r meddwl

## gan Bet Holmes



*Galettes de blé noir*
Os buoch chi i Lydaw ar wyliau, mae'n bosib iawn eich bod wedi mynd i *crêperie* i fwyta *crêpes* melys neu *galettes* sawrus. "Magit mat ho korf, hoc'h ene a chomo pelloc'h e-barzh," meddai'r Llydawyr: "Bwydwch eich corff yn dda, a bydd eich enaid yn aros yno yn hirach!" Mae eu *crêpes* yn debyg i'n crempogau neu ffrois ni, ond mae'r *galettes* yn wahanol iawn. Fe'u gwneir gyda blawd du neu sarrasin ("buckwheat") sydd yn aelod o'r un teulu â riwbob, nid grawnfwyd, ac felly maen nhw'n ddi-glwten. Os gwnewch nhw gydag olew yn hytrach na menyn, gallant fod yn ddi-lactos hefyd.

Bydd angen:
*250g o flawd du*
*Wy*
*1/4 llwyaid te o halen*
*1/2 litr o ddŵr*
*30ml (2 llwyaid bwrdd) o fenyn wedi toddi neu olew rêp*

Cymysgwch y rhain yn dda iawn gyda chwisg neu beiriant, a'u gadael dros nos. Nawr ychwanegwch rhyw *5ml eto o ddŵr, cwrw, neu gorau oll o seidr*. Bydd cytew tenau a llyfn gyda chi.

Cynheswch ffrimpan neu faen yn dwym *iawn*, a'i seimio gydag ychydig o olew neu lard mewn clwtyn. Nawr tywalltwch letwadaid fach o'ch cytew arni, a thrïwch ei daenu dros y ffrimpan. Bydd yn sticio. Mae'r un gyntaf **bob amser** yn sticio, hyd yn oedd gyda cogyddion profiadol, felly peidiwch becso. Efallai bydd yr ail yn sticio hefyd, ond daliwch ati. Rhaid coginio nhw ar y ddwy ochr, am ddwy funud yr ochr; dwi'n troi nhw gyda fy nwylo, ond mae spatula yn ddefnyddiol. Ar ôl cwpwl o ymdrechion, byddwch yn gallu cynhyrchu galettes hyfryd, tenau, cras a blasus.

Nawr am y llenwad! Gallech chi ddefnyddio ham, neu gaws, neu sosej, neu fadarch, neu wy, neu *all day breakfast* os mynnwch, er bod Llydawyr fel arfer yn bwyta *galettes* gyda'r hwyr.

Nid pethau hawdd i'w wneud, efallai, ond yn fy marn i mae'n werth yr ymdrech! Mae pob peth da yn werth yr ymdrech, boed gwneud bwyd, garddio, dysgu iaith – neu datblygu ein perthynas gyda Duw. Ac wrth i chi fwyta'ch *galettes*, efallai y daw i'r meddwl ddarlun o Lydaw – yr eglwysi gyda'u tyrau llwyd, y cerfiadau ithfaen o'r croeshoeliad yn y mynwentydd, a'r croesau unig wrth ymyl y lôn, sy'n dangos taw cenedl lawn ffydd, er o draddodiad gwahanol, yw ein cefndryd yr ochr arall i'r môr.

**Y Cadeirydd yn pregethu yn y gwahanol Ardaloedd**

Gweddïwn am fendith Duw ar ymweliadau'r Cadeirydd ac ar bawb sy'n pregethu'r Efengyl

**AWST**
5 Yr Eisteddfod Genedlaethol
12 Gwyliau
19 Gwyliau
26 Gŵyl Greenbelt

**MEDI**
2 Dyffryn Conwy
9 Bathafarn
16 De Gwynedd
23 Llanrhaeadr
30 Môn ac Arfon




**Y GWYLIEDYDD AR CD**
Mae ein diolch yn fawr iawn i Is-bwyllgor Cymraeg, Dydd Gweddi Byd-Eang y Chwiorydd am eu rhodd hael o £1,500-00 tuag at sefydlu'r fenter newydd o gyhoeddi'r *Gwyliedydd* ar gryno ddisg.


O'r rhifyn hwn ymlaen bydd cryno ddisg gydag erthyglau o'r *Gwyliedydd* ar gael yn rhad ac am ddim i unrhyw un sydd yn ddall neu â nam ar eu golwg. Cysylltwch â Robin neu Ffion fel y gallwn anfon CD at y rhai sy'n dymuno ei gael.

# TUDALEN Y PLANT

Mae 12 gwahaniaeth
rhwng y ddau lun yma
o eifr mynydd yn dringo
ar y creigiau uchel.
Beth ydyn nhw?









## Salm 121

Codaf fy llygaid tua'r mynyddoedd;
o ble y daw cymorth i mi?
Daw fy nghymorth oddi wrth yr ARGLWYDD,
creawdwr nefoedd a daear.
Nid yw'n gadael i'th droed lithro,
ac nid yw dy geidwad yn cysgu.
Nid yw ceidwad Israel
yn cysgu nac yn huno. Yr ARGLWYDD yw dy geidwad,
yr ARGLWYDD yw dy gysgod ar dy ddeheulaw;
ni fydd yr haul yn dy daro yn y dydd,
na'r lleuad yn y nos.
Bydd yr ARGLWYDD yn dy gadw rhag pob drwg,
bydd yn cadw dy einioes.
Bydd yr ARGLWYDD yn gwylio dy fynd a'th ddod
yn awr a hyd byth.